




Tyfu Canolbarth Cymru
Cyfarfod Partneriaeth – Cofnodion
Siambwr y Cyngor, Neuadd Sir Powys, Spa Road East, Llandrindod, Powys, LD1 5LG
Dydd Mercher 24 Mehefin 2015, 10.00am – 12.00pm

Mynychwyr

Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd)
 Cynghorydd Barry Thomas, Arweinydd Cyngor Sir Powys
 Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Portffolio dros Adfywio
 Cynghorydd Avril York, Aelod Portffolio dros Adfywio a Chynllunio
 Cynghorydd Alun Williams, Cadeirydd, Trac
 Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-ganghellor, Prifysgol Aberystwyth
 Kathryn David, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant
 James Harrison, Cadeirydd, Fforwm Economaidd Canolbarth Cymru
 Gareth Price, Cadeirydd, Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru
 Doug Hughes, Cadeirydd, Ardal Twf Lleol Y Drenewydd
 Arwyn Watkins, Cynrychiolydd Etholedig y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol
 Paul Evans, Arweinydd Busnes ar Fwrdd Rhaglen Cymunedau Cryfach Powys
 Jacqui Weatherburn, Coleg Ceredigion
 Hazel Lloyd-Lubran, CAVO
 Allan Lewis, Cyngor Sir Ceredigion
 Mike Shaw, Cyngor Sir Ceredigion
 Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion
 Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys
 Susan Bolter, Cyngor Sir Powys
 Sarah Jowett, Cyngor Sir Powys
 Ann Watkins, Llywodraeth Cymru
 Rhys Morris, Llywodraeth Cymru
 Lisa Cascarini, Cyngor Sir Powys (yn cymryd cofnodion)



1.	<p>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn groeso i bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau o amgylch yr ystafell.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth: Huw Morgan, Cyngor Sir Ceredigion Elid Morris, Rheolwr y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol Ceri Stephens, Grŵp Gwneuthuro Canolbarth Cymru a Chadeirydd y Siambwr Fasnach Delyth Evans, Cadeirydd, Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi Duncan Hamer, Dirprwy Gyfarwyddwr, Entrepreneuriaeth a Chyflwyno, Llywodraeth Cymru (LIC) Carl Cooper, PAVO</p>	
2.	<p>Cofnodion cyfarfod y 30 Mawrth 2015 Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Barry Thomas.</p>	

	<p><u>Materion yn codi</u> Roedd tudalen 4 ar wasanaethau rheilffordd wedi cael eu trafod gyda'r Gweinidog ac roedd y Swyddogion wedi derbyn ac ystyried y pryderon. Gyda'r newid mewn masnachfaint, mae angen sicrhau fod y cyswllt trên i Firmingham yn parhau gyda gwasanaeth pob awr a bod cyswllt gwell i Gaerdydd.</p> <p>Mae gwasanaeth trên newydd wedi dechrau ar Linell Cambrian. Mae hwn yn dda iawn ar hyn o bryd ac yn cael defnydd helaeth. Dyma ddatblygiad positif.</p>	
3.	<p>Cylch Gorchwyl – Cwblhau Cafodd y diwygiadau i'r Cylch Gorchwyl eu tynnu ynghyd yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Cafodd aelodau'r Bartneriaeth eu tywys trwy'r ddogfen gan Mike Shaw.</p> <p>Fe wnaeth y Cynghorydd Alun Williams gwestiynu'r angen i wahodd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth i gyfarfodydd. Gweithred: Mae'r Cynghorydd Williams i gyflwyno manylion cyswllt i Lisa Cascarini</p> <p>Gofynnodd y Cynghorydd Avril York a ddylid gwahodd sefydliadau eraill i ffrydiau gwaith unwaith y maent wedi'u sefydlu. Cytunwyd y byddai hyn yn digwydd fel sy'n ofynnol.</p> <p>Roedd trafodaeth wedi'i chynnal yn ystod y cyfarfod diwethaf ynglŷn â'r sector Amaethyddol. Gweithred: Mike Shaw i gyflwyno manylion cyswllt ar gyfer Lisa Cascarini</p> <p>Cefnogodd James Harrison yr awgrymiadau a wnaed gan y byddai'r ddau sector yn cael effaith fawr ar yr economi. Awgrymodd James y dylai bod yn rhestr hyblyg yn hytrach nag un pendant. Dylid cynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd.</p> <p>Roedd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn teimlo fod gwahodd gwybodaeth arbenigol i'r Bartneriaeth yn bwysig. Rhaid i'r Bartneriaeth gael hyblygrwydd wrth symud ymlaen. Ehangu'r Bartneriaeth yw'r peth cywir i'w wneud ond rhaid iddi ehangu mewn ffordd y gellir ei rheoli, ac ar hyn o bryd, teimlwyd mai gwahodd sefydliadau a chynrychiolwyr mewn ymateb i'r agenda ac fel y byddai'r angen yn codi oedd y ffordd orau. Mae llawer o ddiddordeb mewn datblygu'r Bartneriaeth ar hyn o bryd, ac argymhellwyd ei bod yn bwysig fod Cadeirydd y bartneriaeth yn dod o'r sector cyhoeddus am y tro. Mae'r fenter hon yn cael ei chefnogi gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, teimlwyd mai pwysig oedd cael arweinyddiaeth barhaus ar lefel wleidyddol gan Geredigion a Phowys er mwyn cadw'r momentwm ac i helpu'r Bartneriaeth symud ymlaen. Gellir ailystyried Aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl yn y dyfodol, unwaith y bydd y Bartneriaeth yn fwy sefydlog.</p> <p>Awgrymodd Arwyn Watkins fod rhaid i aelodau sy'n eistedd ar y Bartneriaeth drosglwyddo gwybodaeth ymlaen i'r sectorau. Roedd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn cytuno gyda hyn.</p> <p>Cafwyd trafodaeth am yr Ardaloedd Twf Lleol o fewn Powys gan nad yw Aberhonddu'n weithredol ar hyn o bryd ac felly heb ei gynrychioli.</p>	<p>AW / LJC</p> <p>MS / LJC</p>

	<p>Cytunodd y Bartneriaeth y dylai'r Drenwydd a Llandrindod gynrychioli'r Ardaloedd Twf Lleol ar hyn o bryd.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynglyn â phresenoldeb mewn cyfarfodydd ac a allai dirprwyon fynychu petai cynrychiolwyr enwebedig yn absennol. Cafwyd cytundeb mai'r cynrychiolwyr enwebedig ddylai fynychu mewn amgylchiadau delfrydol ond y byddai dirprwyon yn cael eu caniatáu. Dylai'r dirprwyon gael eu cyfarwyddo'n dda i sicrhau dilyniant busnes ac y byddai disgwyl iddynt weithredu fel aelodau llawn pan oeddynt yn bresennol.</p> <p>Gofynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn am gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl. Cafwyd cytundeb arnynt, yn dilyn diwygiadau a drafodwyd yn y cyfarfod. Cytunodd y Bartneriaeth i gynnwys Cwmni Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth, y Ffederasiwn Busnesau Bach ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr/ Undeb Amaethwyr Cymru fel aelodau o'r Bartneriaeth.</p> <p>Gweithred: Mae Mike Shaw i anfon fersiwn diwygiedig ymlaen i gyfarfod nesaf y Bartneriaeth.</p>	<p>MS</p>
<p>4.</p>	<p>Economi Canolbarth Cymru – Cyflwyniad gan Allan Lewis a Susan Bolter</p> <p>Rhoddodd Sue Bolter ac Allan Lewis gyflwyniad ar Economi Canolbarth Cymru. Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i gyflwyno yn y cofnodion.</p> <p>Fe wnaeth y Cynghorydd Ellen ap Gwynn godi pryderon fod y ffigyrau myfyrwyr yn anghywir. Mae'r ffigur yn cynrychioli nifer y myfyrwyr sydd heb swyddi o gwbl.</p> <p>Roedd Doug Hughes yn teimlo fod Canolbarth Cymru yn denu busnesau ac er bod pobl ifanc o bosibl yn gadael i hybu eu haddysg, roedd nifer yn dychwelyd yn ddiweddarach yn eu bywydau.</p> <p>Roedd y Cynghorydd Avril York yn teimlo mai pwysig oedd sicrhau fod gan Ganolbarth Cymru economi llewyrchus i ddenu pobl ifanc. Mae angen gwyrddroi'r tueddiad presennol o ieuencid yn symud ymaith i fyw. Mae Canolbarth Cymru angen tai, addysg a gwasanaethau hamdden da a fydd yn annog pobl ifanc i fod eisiau byw yma.</p> <p>Teimlai Jacqui Weatherburn fod angen gwneud i weithio yng Nghanolbarth Cymru ymddangos yn fwy deniadol, gan gynnig llwybr cynnydd a symud ymlaen mewn cyflogaeth, fel na allai pobl weld y cam nesaf i fyny wrth gamu ymlaen yn eu gyrfa.</p> <p>Trafododd Arwyn Watkins yr angen i gydnabod ei bod hi'n anodd weithiau i wneud buddsoddiad pan mai ychydig iawn o ddiweithdra sydd yng nghanolbarth Cymru. Gan ei bod bron yn sefyllfa o gyflogaeth llawn, mae'n anodd hefyd i lenwi swyddi gwag gydag unigolion sydd â'r sgiliau cywir.</p> <p>Awgrymodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn y dylid gwahodd Manon Antoniazzi i gyfarfodydd yn y dyfodol oherwydd pwysigrwydd anferthol twristiaeth i economi'r rhanbarth. Gweithred: Ann Watkins i gyflwyno manylion cyswllt i Lisa Cascarini</p>	<p> Ms Overview of economic challenge</p> <p>AW / LJC</p>

	<p>Awgrymodd Paul Griffiths i ddatblygu a symud ymlaen gyda'r cyflwyniad a'r sylwadau gan eu troi yn gynllun gweithredu. Pan fydd cynllun gweithredu drafft wedi'i lunio, yna gellir ei rannu gyda'r Bartneriaeth. Mae'n bwysig derbyn sylwadau rhwng cyfarfodydd er mwyn osgoi oedi diangen fel y gellir cytuno ar y cynllun yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Roedd y Cyngorydd Alun Williams yn teimlo ei bod hi'n bwysig gwneud achos i Lywodraeth Cymru gan awgrymu fod Canolbarth Cymru yn ddaearyddol yn safle strategol allweddol. Gallai fod yn fan cyfarfod i Gymru Gyfan, yn ganolfan gweithgaredd i Gymru gyfan.</p> <p>Awgrymodd James Harrison y dylid sefydlu rhwydwaith i gyflwyno gwybodaeth a chyfathrebu gan nad yw pobl yn ymwybodol o swyddi yng Nghanolbarth Cymru. Gallai hynny ddatrys rhai materion. Gwnaed cyfeiriad at y cyn rhaglen Llwybro a fu'n gweithredu'n flaenorol yng Nghanolbarth Cymru.</p> <p>Gweithred: James Harrison i gysylltu ag Ann Watkin yn uniongyrchol.</p> <p>Gweithred: Swyddog ALI i lunio cynllun gweithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p>	<p>JH</p> <p>Swyddogion ALI</p>
5.	<p>Cefnogaeth i Fusnesau – Rhys Morris, Busnesau Cymru LIC</p> <p>Rhoddodd Rhys Morris gyflwyniad ar Gefnogaeth i Fusnesau. Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i gynnwys yn y cofnodion.</p> <p>Gofynnodd y Cyngorydd Avril York a oedd Mentrau Bach a Chanolig a microfusnesau wedi'u cynnwys. Dywedodd Rhys Morris mai dyma oedd yr achos.</p> <p>Gofynnodd Arwyn Watkins a roddwyd mynediad at y wybodaeth i brentisiaid.</p>	 <p>Business Wales Level 1-4 presentatic</p>
6.	<p>Ymgysylltu Rhanbarthol yn yr Undeb Ewropeaidd - Mike Shaw</p> <p>Dywedodd Mike Shaw mai dyma gyfle i edrych ar brosiectau sy'n dod trwy ffrydiau ariannu Ewropeaidd a phrosiectau eraill i sicrhau canlyniadau gwell i'r rhanbarth.</p> <p>Esboniodd beth mae "ymgysylltu rhanbarthol" yn ei olygu ar gyfer ac o fewn Canolbarth Cymru a darluniodd hyn gydag enghraifft sydd wedi deillio o'r trydydd sector.</p> <p>Mae nawdd ar gyfer 'ymgysylltu rhanbarthol' ar gael trwy'r Rhaglenni Ewropeaidd ac mae Cyngorau Sir Powys a Cheredigion wedi dechrau ymgeisio ar gyfer hyn. Mae gofyn cael cynlluniau manwl yn gyflym gan fod Llywodraeth Cymru eisiau gweld 'ymgysylltu rhanbarthol' ar waith erbyn yr hydref.</p> <p>Awgrymodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn fod angen i'r Bartneriaeth ganolbwyntio ar yr hyn sy'n ofynnol yng Nghanolbarth Cymru; mae'n gyfle pwysig i sicrhau fod llais Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn cael ei glywed a bod sylw yn cael ei roi i'n blaenoriaethau.</p> <p>Roedd Paul Griffiths yn teimlo mai hanfodol oedd ymddangos fel bod y Bartneriaeth yn symud ymlaen gyda hyn a bod symud yn gyflym yn allweddol. Mae angen i'r Awdurdodau gydweithio ar y manylion. Bydd cryfder y Bartneriaeth yn caniatáu i'r gwaith hwn barhau.</p>	

	<p>Pwysleisiodd Doug Hughes yr angen i ddod o hyd i ffordd o weithio a fyddai'n hwyluso cynnwys y sector preifat a'i gyfraniad. Roedd y Cynghorydd Avril York yn teimlo mai pwysig oedd sicrhau fod yr holl ardaloedd yn cydweithio gan fod gwahanol ffrydiau ariannu Ewropeaidd. Nodwyd fod y rhaglenni ar gyfer Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi'u geirio'n debyg.</p> <p>Pwysleisiodd Mike Shaw y sefyllfa mewn gwirionedd o rychwantu'r gwaith hwn ynghyd â threfniadau staff a threfniadau eraill gan mai'r rhaniad ariannu yn fras yw 82% i Geredigion a 18% i Bowys.</p> <p>Rhoddodd y Bartneriaeth ystyriaeth i gynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cyflwyno'r swyddogaeth Ymgysylltu Rhanbarthol yn rhanbarth Canolbarth Cymru a'r amserlen debygol. Cafwyd cefnogaeth i'r dull a chytunwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> Y byddai'r swyddogaeth Ymgysylltu Rhanbarthol, yn rhanbarth Canolbarth Cymru, yn rhan o rôl Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Y byddai'r trefniadau arfaethedig yn cefnogi rôl y Bartneriaeth wrth gyflawni'r tasgau hyn. Nodi mai Cyngor Sir Ceredigion sy'n gweithredu fel y buddiolwr arwain ar gyfer y Bartneriaeth i gyflwyno'r swyddogaeth Ymgysylltu Rhanbarthol yn rhanbarth Canolbarth Cymru a bod Cyngor Sir Powys yn gweithredu fel y buddiolwr ar y cyd gyda hyn. Cyflwyno cynlluniau busnes ar gyfer ceisiadau i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i alluogi rhoi'r trefniadau hyn ar waith. Y gellir cyflwyno trefniadau dros dro i sicrhau y gellir cyflwyno'r broses prawfesur rhanbarthol ar ran y Bartneriaeth cyn y cytundebau terfynol gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Bod Swyddogion i adrodd yn ôl pan dderbynnir rhagor o wybodaeth. 	MS
7.	<p>Cyfraniad y Sector Preifat yn Nhyfu Canolbarth Cymru – llythyr a dderbyniwyd</p> <p>Roedd partneriaid y sector preifat wedi ysgrifennu at y Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn cynghori ar sut y byddent yn hoffi gweld y Bartneriaeth yn gweithredu a sut y gellid ei strwythuro. Roeddynt wedi cadarnhau eu bod yn ymroddedig i weld manteision i Ganolbarth Cymru. Roeddent yn teimlo ei bod hi'n bwysig edrych ar drefniadau mewn rhanbarthau gwledig eraill ynghyd â Phrofiad y Partneriaethau Menter Lleol.</p> <p>Awgrymodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn y dylid gwahodd Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i gyfarfod yn y dyfodol.</p> <p>Yn hytrach na gwahodd y Bwrdd Uchelgais i fynychu cyfarfod, awgrymodd James Harrison y dylid paratoi papur ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol i ddysgu o brofiadau, strwythurau a rhaglenni gwaith y canlynol; <i>The Highlands and Islands Enterprise</i> <i>The Marches Local Enterprise Partnership.</i></p> <p>Dywedodd Jacqui Weatherburn y byddai'n awyddus i weld y ddau awgrym ar y cyd â'i gilydd.</p> <p>Roedd Paul Griffiths yn awyddus i glywed gan y <i>Highlands and Islands</i> gan eu bod yn debyg o ran eu natur wledig, ac yn ymddangos, o</p>	LJC

	<p>gyflwyniad cynharach, i fod yn llwyddiannus. Awgrymodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn y dylid cael cyflwyniad dros alwad cynadledda yng nghyfarfod nesaf Powys. Gweithred: LJC i drafod gyda TGCh i weld os yw hyn yn bosibl.</p> <p>Cadarnhaodd James Harrison ei fod yn hapus i roi'r amser tuag at y gwaith hwn yn archwilio profiad Gorllewin Canolbarth Lloegr.</p> <p>Gweithred: cytunodd y Bartneriaeth i dderbyn adroddiadau yn ôl ar y ddau Fwrdd yma.</p>	<p>JH</p>														
<p>8.</p>	<p>Unrhyw fusnes arall</p> <p>“Blaenoriaethu Rhanbarthol ar gyfer cynigion rhaglen ariannu'r ERDF tuag at Gynlluniau Adfywio Adeiladau Canol Trefi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd”</p> <p>Cyflwynwyd y papur sydd ynghlwm ac esboniodd Mike Shaw y cefndir i Lywodraeth Cymru yn datblygu cynnig i'w gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i fynd i'r afael ag adeiladau canol tref gwag neu sydd wedi'u tanddefnyddio. Mae nawdd ar gael trwy Raglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Nid oes cyfle cyfochrog dan Raglen ERDF Dwyrain Cymru, ond fod Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn caniatáu gwariant y tu allan i'r rhanbarth lle'r oedd y buddsoddiad yn cefnogi'r rhanbarth cymwys, ond bod cefnogaeth o'r fath angen cymeradwyaeth benodol gan Bwyllgor Monitro Rhaglen Cymru Gyfan.</p> <p>Rhoddodd y partneriaid ystyriaeth i bob cynllun a gyflwynwyd a'r sgorau ar gyfer pob un.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth, fe wnaeth y Bartneriaeth;</p> <p>Gefnogi blaenoriaethu'r tri chynllun 'oedd yn barod i fynd' a'r tri chynllun 'oedd ar y gweill' a oedd ar fin bod yn barod:</p> <table border="1" data-bbox="244 1272 1236 1771"> <thead> <tr> <th>Canol Tref</th> <th>Cynllun</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Aberystwyth</td> <td>Swyddfa'r Sir, Teras Marine. Datblygu gwesty</td> </tr> <tr> <td>Aberystwyth</td> <td>Safle'r hen Swyddfa Bost, Aberystwyth Defnydd canol tref cymysg A3</td> </tr> <tr> <td>Aberteifi</td> <td>Lloyds Wharf Hamdden a thwristiaeth</td> </tr> <tr> <td>Aberteifi (cynllun 'ar y gweill')</td> <td>Mwldan Canolfan gymunedol</td> </tr> <tr> <td>Aberystwyth (cynllun 'ar y gweill')</td> <td>Yr Hen Goleg, Heol y Brenin, Aberystwyth Defnydd cymysg</td> </tr> <tr> <td>Ystradgynlais (cynllun 'ar y gweill')</td> <td>Y Neuadd Les, Heol Aberhonddu Defnydd diwylliannol a chymunedol</td> </tr> </tbody> </table> <p>Cytunwyd i ofyn i Lywodraeth Cymru ofyn am gymeradwyaeth ar gyfer buddsoddiadau 'y tu allan i'r rhanbarth' i gefnogi cynnig Ystradgynlais, a;</p> <p>Gofynnwyd am gyflwyno papur arall ar raglenni ariannu'r Undeb Ewropeaidd mewn cyfarfod yn y dyfodol.</p> <p>Gweithredoedd: Mae swyddogion i ofyn am wybodaeth bellach ar y posibilrwydd o gynllun cyfochrog ar draws rhanbarth Dwyrain Cymru gan ddefnyddio nawdd domestig.</p>	Canol Tref	Cynllun	Aberystwyth	Swyddfa'r Sir, Teras Marine. Datblygu gwesty	Aberystwyth	Safle'r hen Swyddfa Bost, Aberystwyth Defnydd canol tref cymysg A3	Aberteifi	Lloyds Wharf Hamdden a thwristiaeth	Aberteifi (cynllun 'ar y gweill')	Mwldan Canolfan gymunedol	Aberystwyth (cynllun 'ar y gweill')	Yr Hen Goleg, Heol y Brenin, Aberystwyth Defnydd cymysg	Ystradgynlais (cynllun 'ar y gweill')	Y Neuadd Les, Heol Aberhonddu Defnydd diwylliannol a chymunedol	<p> GMW 240615 Additional item Tow</p> <p> Use it or lose it - proposed schemes.c</p> <p>MS</p> <p>MS</p>
Canol Tref	Cynllun															
Aberystwyth	Swyddfa'r Sir, Teras Marine. Datblygu gwesty															
Aberystwyth	Safle'r hen Swyddfa Bost, Aberystwyth Defnydd canol tref cymysg A3															
Aberteifi	Lloyds Wharf Hamdden a thwristiaeth															
Aberteifi (cynllun 'ar y gweill')	Mwldan Canolfan gymunedol															
Aberystwyth (cynllun 'ar y gweill')	Yr Hen Goleg, Heol y Brenin, Aberystwyth Defnydd cymysg															
Ystradgynlais (cynllun 'ar y gweill')	Y Neuadd Les, Heol Aberhonddu Defnydd diwylliannol a chymunedol															

--	--	--

**CYNGHORYDD ELLEN AP GWYNN
CADEIRYDD**

**Dyddiad cyfarfod nesaf y Bartneriaeth Dydd Llun 28 Medi 2015, 2.00pm
Ystafell Ystwyth, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion**